


Rhifyn 50

Rhyfedd o fyd

Sgrechian!

 <p>Chris</p>	<p>Ces i brofiad rhyfedd iawn neithiwr.</p>
 <p>Alex</p>	<p>Wel? Paid jyst dechrau stori ac yna'i gadael hi.</p>
 <p>Chris</p>	<p>Fel mae rhai ohonoch chi'n gwybod, dw i'n byw yn Uppsala, Sweden, am flwyddyn achos mae Dad yn gweithio yma am 12 mis. Neithiwr, roeddwn i'n cerdded heibio i'r brifysgol tua 10 o'r gloch a dyma bobl yn dechrau sgrechian nerth eu pennau. Ces i fraw!</p>
 <p>Alex</p>	<p>Sgrechian? Pa fath o sgrechian?</p>
 <p>Chris</p>	<p>Pa fath o sgrechian? Wel dyna gwestiwn twp. Sgrechian ydy sgrechian!</p>
 <p>Miriam</p>	<p>Faint o bobl oedd yn sgrechian?</p>

 Chris	Dw i ddim yn siŵr, ond roedd llawer ohonyn nhw.
 Miriam	Pam roedden nhw'n sgrechian?
 Chris	Dw i ddim yn siŵr, ond edrychais i i fyny at adeilad y brifysgol ac roedd llawer ohonyn nhw wedi agor y ffenestri ac roedden nhw jyst yn sgrechian nerth eu pennau allan drwy'r ffenestri. Rhyfedd!
 Klara	Dw i'n gwybod pam maen nhw'n sgrechian.
 Chris	Pam?
 Klara	Bob nos, am ddeg o'r gloch, mae myfyrwyr yn Sweden yn agor y ffenestri neu maen nhw'n sefyll ar falconi neu ar y to ac yna maen nhw'n sgrechian. Dechreuodd hyn rai blynyddoedd yn ôl adeg arholiadau. Roedd y myfyrwyr yn teimlo o dan straen achos roedden nhw'n gweithio'n galed ar gyfer yr

	arholiadau ac felly penderfynon nhw sgrechian gyda'i gilydd.
 Chris	Dyna ni 'te, y tro nesa bydda i'n cael prawf neu arholiad yn yr ysgol, dw i'n gwybod beth fydda i'n ei wneud am ddeg o'r gloch y nos!
 Miriam	Mae gen i well syniad. Beth am fynd i eistedd mewn ystafell sy'n llawn cŵn? Dyna beth mae myfyrwyr Prifysgol Dalhousie, Canada, yn ei wneud er mwyn lleihau tensiwn a straen!
 Chris	Wel, ie, efallai - mae hynny'n swnio'n dawel ac yn ymlaciol iawn, ond fy hun, mae'n well gen i'r syniad o SGRECHIAN!!!!!!!!!!!!!!

Gwaith gwahanol (1)

Darllenwch y testun hwn sy'n sôn am waith "gwahanol". Mae teitl y swydd ar goll, ond beth yw'r swydd yn eich barn chi?

Hafan

Swyddi Gwahanol

Cwestiynau

Lluniau

Mae gen i'r swydd orau erioed. Dw i'n ennill £22,000 y flwyddyn am wneud rhywbeth dw i'n ei fwynhau'n fawr.

Beth dw i'n ei wneud

Dw i'n sefyll wrth felt symudol hir lle mae miloedd o greision ffres yn symud. Mae'r arogl yn anhygoel! Dw i'n edrych yn ofalus ar y creision sy'n symud o 'mlaen i a dw i'n cael gwared ar unrhyw rai sydd wedi eu llosgi neu sy'n sownd yn ei gilydd mewn talpiau mawr.

Hefyd, dw i'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd staff i drafod creision.

Beth dw i'n ei hoffi am y gwaith

Mae'r gwaith yn wych! Dw i wrth fy modd yn bwyta creision ac mae'r cyflog yn eitha da. Hefyd, mae'r ffatri lle dw i'n gweithio yn hyfryd – mae'n lân (wrth gwrs!), yn gynnes ac mae gennyn ni ystafell staff fawr. Mae gen i lawer o ffrindiau Fyma ac rydyn ni'n cael llawer o hwyl.

Beth sy ddim mor dda am y gwaith

Mae'n bosib rhoi llawer o bwysau ymlaen os ydych chi'n bwyta'r creision! Hefyd, erbyn hyn, dw i ddim yn gallu agor pecyn o greision yn fy amser hamdden a'u mwynhau nhw fel roeddwn i'n arfer

gwneud oherwydd y peth cyntaf dw i'n ei wneud nawr ar ôl agor pecyn yw edrych i mewn a gwirio bod pob un yn edrych yn iawn.

Pa fath o berson sy'n gallu gwneud y gwaith yma

Person amyneddgar, sy'n fodlon sefyll am amser hir yn gwylio creision. Mae angen llygad da (er mwyn gallu gweld creision anaddas). Rhaid gallu dod ymlaen yn dda gyda phobl eraill hefyd.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
belt symudol	belt hir sy'n symud	conveyor belt
cael gwared ar	symud oddi yno, taflu efallai	(to) get rid of
talpiau	lluosog talp ; lymphiau	lumps
gwirio	gwneud yn siŵr bod rhywbeth yn iawn	(to) check
amyneddgar	ansoddair sy'n gysylltiedig ag amynedd; bod â llawer o amynedd	patient
anaddas	rhywbeth sydd ddim yn briodol	unsuitable

Gwyllo defaid

27 Tachwedd 2017

Annwyl bapur bro,

Oeddech chi'n gwybod bod pobl yn Nenmarc sy'n siopa mewn archfarchnadoedd yn gallu gwyllo rhannau o Gymru wrth iddynt siopa?

Beth mae'r fideos yn ei ddangos? Dramâu cyffrous? Cerddoriaeth fywiog? Tîm o Gymry cryf yn dangos sut i chwarae rygbi? Rhai o olygfeydd ysblennydd Cymru? Pobl yn syrffio ar draethau euraidd Sir Benfro efallai? Nage wir. Defaid ac wŷn yn pori'n hapus ar gaeau Cymru – dyna beth mae'r fideo'n ei ddangos.

Mae dau lamb cam wedi eu gosod mewn caeau ger Corwen ac Aberystwyth i ddangos bod defaid ac wŷn Cymru yn pori mewn caeau hyfryd, mewn amgylchedd bendigedig lle mae'r awyr yn lân a'r afonydd a'r nentydd yn glir. Pwrpas hyn yw dangos bod y cig yn dda a'i fod yn cael ei gynhyrchu drwy ddefnyddio dulliau naturiol, traddodiadol, diogel. Gall pobl Denmarc fod yn hollol hyderus eu bod yn bwyta cig da blasus, felly - cig arbennig iawn - os ydyn nhw'n prynu cig Cymru.

Credaf fod y cynllun yn un ardderchog gan ei fod yn dangos cynnyrch Cymru ar ei orau a hoffwn annog mwy o gwmnïau a chynhyrchwyr Cymru i feddwl am ffyrdd arloesol o hysbysebu ac o farchnata i wledydd tramor - yn enwedig gan fod Brexit ar fin digwydd!

Ond i gloi, gair o rybudd. Os byddwch chi'n cerdded ar draws y caeau yn ardal Aberystwyth neu Gorwen, byddwch yn ofalus ynglŷn â beth rydych chi'n ei wneud oherwydd mae'n bosib bod miloedd o bobl yn Nenmarc yn eich gwyllo chi - yn fyw!!

Yn gywir,

E. Williams

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
ysblennydd	gwyb iawn	splendid
euraidd	ansoddair sy'n gysylltiedig â'r enw aur	golden
dull	ffordd o wneud rhywbeth	method
cynnyrch	rhywbeth sy'n cael ei gynhyrchu	produce
arloesol	newydd, yn torri tir newydd	pioneering
ar fin digwydd	yn mynd i ddigwydd yn fuan	about to happen

Mynd yn bananas

24 Tachwedd, 2017

Roedd heno'n hollol bananas! Ces i amser ffantastig!

Es i i'r ysgol erbyn chwech o'r gloch i helpu achos roedd Noson Bananas yno - noson i geisio perswadio pobl i ailgylchu bwyd. Criw Blwyddyn 8 oedd wedi trefnu'r noson gan ein bod ni wedi bod yn trafod ailgylchu ers dechrau'r tymor. (Aethon ni i'r ganolfan ailgylchu bwyd ar Hydref 14 - diddorol iawn!)

Ers i Miss Evans awgrymu'r noson, felly, rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed yn trefnu. Rydyn ni wedi bod yn gwneud poster, yn siarad ar y radio lleol ac yn paratoi gweithgareddau diddorol ers wythnosau ac mae pawb wedi mwynhau gwneud hyn! (Trueni ein bod ni ddim yn gwneud rhywbeth fel hyn bob dydd!)

Roedd hi'n noson ardderchog. Agorodd y Pennaeth y noson drwy ddweud pa mor bwysig yw ailgylchu bwyd. Yna, daeth Y Bobl Wirion (Band Blwyddyn 11) i ganu cân am fynd i rywle ar gwch banana (doedden nhw ddim yn dda iawn - dw i ddim yn hoffi'r band o gwbl!). Ar ôl iddyn nhw orffen, aeth pawb i ymweld â stondinau gwahanol, e.e. i yfed ysgytlaeth banana (blasus iawn!) ar y stondin ddiodydd, i fwyta cacennau banana (blasus iawn, iawn!) ar y stondin gacennau, i ddawnsio gwerin yn y neuadd (roedd rhai o'r staff yn edrych yn ddoniol iawn!), i gymryd rhan mewn cystadlaethau fel "Sawl banana sydd yn y bocs?" a rasys bananas (oedd, roedd y bananas yn rasio!), a llawer o bethau eraill. Ac wrth gwrs, roedd pawb yn gwisgo dillad melyn neu wisg banana. Ar ddiwedd y noson, cyhoeddodd Miss Evans pwy oedd wedi ennill y gystadleuaeth gwisg ffansi - Matt! Roedd o'n edrych yn rhyfedd iawn, iawn. Bydd pawb yn tynnu ei goes e yfory, mae'n siwr!

Oeddech chi'n gwybod?

Oeddech chi'n gwybod bod pobl wedi bod yn gwisgo fel bananas ar hyd a lled Cymru eleni? Cliciwch yma i weld y lluniau ac i ddarllen yr hanes:

<http://www.recycleforwales.org.uk/cy/news/2017-02-24-tirnodau-cymru-yn-hollol-bananas-dros-ailgylchu-bwyd>

Gwaith gwahanol (2)

Darllenwch y testun hwn sy'n sôn am waith "gwahanol". Mae teitl y swydd ar goll, ond beth yw'r swydd yn eich barn chi?

Hafan

Swyddi Gwahanol

Cwestiynau

Lluniau

£25,000 y flwyddyn (+ treuliau)

Dyma'r swydd i'r rhai ohonoch chi sy'n mwynhau dŵr, gweithio tu allan a chael hwyl.

Y gwaith

Byddwch chi'n gweithio i gwmni gwyliau rhyngwladol, yn teithio o gwmpas gwledydd o gwmpas Môr y Canoldir ac yn ymweld â gwestai a gwerysloedd gwyliau'r cwmni. Yno, byddwch chi'n gwirio bod y sleidiau dŵr yn hwyl ac yn ddiogel. I wneud hyn, bydd angen i chi fynd ar y sleidiau dŵr dro ar ôl tro i weld faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob reid, pa mor gyflym byddwch chi'n teithio i lawr y sleidiau a pha mor ddiogel ydyn nhw. Yn ogystal, bydd angen i chi ysgrifennu adroddiad ar eich canfyddiadau, yn enwedig os byddwch chi'n canfod unrhyw beryglon, a chyfarfod â staff hamdden y gwerysloedd / gwestai.

Manteision

Mae'r swydd yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer teithio, gweld y byd, gwneud ffrindiau newydd a chael hwyl a sbri yn eich gwaith.

Anfanteision

Byddwch chi'n treulio oriau lawer mewn meysydd awyr (yn enwedig os yw'r awyrennau'n hwyr) ac yn hedfan o le i le. Yn ogystal, gall y swydd fod yn ddiflas mewn tywydd oer a gwlyb.

Priodoleddau

Mae'r gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phobl eraill yn hanfodol. Mae angen bod yn heini, yn fentrus ac yn ddi-ofn a rhaid, wrth gwrs, mwynhau mynd i lawr sleidiau dŵr!

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
dro ar ôl tro	droeon, drosodd a throsodd	time and time again
canfyddiadau	yr hyn y byddwch chi'n ei ganfod	findings
hanfodol	rhywbeth mae'n rhaid ei gael	essential

Faint?

Darllenwch y darn agoriadol yma o araith.


Annwyl gyfeillion,

Roedd eitem ddiddorol ar y newyddion yr wsnos dwythfa am dimau pêl-droed rhyngwladol Norwy. Mae'n debyg bod tîm y merched yn mynd i dderbyn yr un cyflog â thîm y dynion o 2018 ymlaen - a diolch am hynny yntê! Mae hyn yn digwydd achos bod y dynion wedi cytuno i dderbyn llai o gyflog, fel bod yr arian sy ar gael yn cael ei rannu'n decach rhwng y ddau dîm. Chwarae teg iddyn nhw am wneud hynny, ond mae'n anhygoel meddwl bod y merched wedi bod yn derbyn llai o gyflog na'r dynion am chwarae'r un gêm ar yr un lefel on'd ydy hi! Ydy hyn yn digwydd mewn gwledydd eraill. dudwch?

Mi wnaeth yr eitem yma i mi feddwl mwy am gyflogau pêl-droedwyr a bod yn onest. Ro'n i'n gallu cofio am y ffi anfoesol dalodd Paris Saint Germain am Neymar ym mis Awst eleni (222 miliwn ewro!!!!) ac mi wnaeth hyn i mi feddwl faint mae pêl-droedwyr yn cael eu talu bob wsnos. Edrychwch ar y wefan [yma](#), er enghraifft.

Bobl bach! Os ydy Neymar yn ennill £500,000 a Carlos Tevez yn ennill £650,000 mewn wsnos, faint ar y ddaear maen nhw'n ennill mewn blwyddyn, dudwch? Mi gewch chi wneud y sÿms!

Yna, mi ddechreues i feddwl, sut mae cyflog pêl-droedwyr yn cymharu efo cyflogau gweithwyr eraill. Mi ges i fy syfrdanu! Edrychwch ar y graff yma o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r ffigurau yma'n sôn am y flwyddyn Ebrill 2015-Mawrth 2016. Dydy'r ystadegau ar gyfer 2016-2017 ddim ar gael eto. Edrychwch yn ofalus - a chofiwch faint mae'r pêl-droedwyr yna'n ennill!



Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
anhygoel	amhosib ei gredu	incredible
anfoesol	rhywbeth sydd ddim yn foesol - yn hollol anghywir	immoral

Anhygoel!

Darllenwch y ddau ddarn yma.

Darn 1



Mae orennau'n ddefnyddiol iawn. Mae'n bosib ...

- eu bwyta nhw'n amrwd
- yfed eu sudd
- coginio gyda nhw
- gwneud te oren
- eu defnyddio nhw ar gyfer glanhau (ar ôl ychwanegu'r sudd at finegr gwyn)
- eu rhoi nhw yn yr ardd i gadw cathod i ffwrdd
- ... a rŵan, mae'n bosib eu gwisgo nhw hefyd, diolch i ddwy ferch o'r Eidal!

Dillad o orennau

Mae Sicily, yn yr Eidal, yn enwog am ei orennau ac am gynhyrchu sudd ffrwythau. Wrth gynhyrchu'r sudd ffrwythau mae cannoedd o filoedd o dunelli o groen orennau'n cael ei gwastraffu.

Felly, penderfynodd Adriana Santanocito, dynes ifanc o Sicily, ei bod hi'n mynd i geisio ailgylchu'r crwyn i greu defnydd arbennig – defnydd allai gael ei ddefnyddio wrth wneud dillad.

Erbyn hyn, mae hi a'i ffrind, Enrica Arena, wedi dod o hyd i ffordd o brosesu'r crwyn i greu defnydd arbennig sy'n teimlo fel sidan ac maen nhw wedi creu cwmni arbennig o'r enw Orange Fiber.

Yn ogystal â theimlo ac edrych yn hyfryd, mae mantais arall i'r defnydd maen nhw wedi ei greu. Maen nhw wedi dyfeisio ffordd arbennig o brosesu'r crwyn fel nad yw'r olew a'r fitamin C sydd yn y crwyn orennau'n cael ei ddifetha. Felly, pan fydd rhywun yn gwisgo dillad sydd wedi eu gwneud o'r crwyn yma, mae'r olew a'r fitamin C yn cael ei amsugno i mewn i groen y person. Mae'r dillad yn gweithio fel eli croen, felly!

Dillad sy'n ailgylchu defnydd gwastraff ... sy'n edrych yn dda ... ac sy'n dda i'r croen, felly. Anhygoel!

Am fwy o wybodaeth, ewch i <http://orangefiber.it/en/fabrics/>

Darn 2



Mae rhai pobl yn mwynhau yfed paned o goffi unrhyw adeg o'r dydd ac maen nhw wrth eu bodd efo cacen goffi hefyd! Mae pobl eraill yn ychwanegu coffi at greffi neu gawl, ond mae rhai pobl yn gwneud pethau eitha "rhyfedd" efo gweddillion y pot coffi. Maen nhw'n eu harllwys yn yr ardd – i gadw malwod a chathod i ffwrdd – neu'n eu defnyddio gyda'r siampw wrth olchi eu gwallt er mwyn creu gwallt sy'n edrych yn iach iawn (ond byddwch y ofalus, mae'n gallu tywyllu'r gwallt!). Mae rhai pobl yn rhwbio ffa coffi dros eu cyrff er mwyn cael gwared â hen groen hyd yn oed.

Rwân, mae cynlluniau i ddefnyddio coffi ar gyfer rhywbeth gwahanol iawn yn Llundain! Mae Arthur Kay, enillydd y teitl Entrepreneur y Flwyddyn 2017, wedi sefydlu cwmni o'r enw Bio-bean, sy'n casglu gwastraff coffi o siopau coffi, gorsafoedd rheilffyrdd, prifysgolion ac ati, er mwyn cynhyrchu tanwydd. Mae'r cwmni eisoes wedi creu logiau coffi i'w llosgi yn y tŷ i gynhesu cartrefi ond, cyn bo hir, mae gobaith y bydd y tanwydd sy'n cael ei greu o goffi yn gallu rhedeg bysys coch Llundain. Byddai hyn yn lleihau llygredd yn y ddinas yn sylweddol.

Dyma rhywbeth i chi feddwl amdano y tro nesaf y byddwch chi'n yfed paned hyfryd o goffi!

Am fwy o wybodaeth, ewch i <http://www.bio-bean.com/collection/>

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
amrwd	heb goginio	raw
dyfeisio	creu	(to) devise
difetha	distrywio	(to) destroy
amsugno	sugno i mewn	(to) absorb
cael gwared â	taflu i ffwrdd	(to) get rid of
tanwydd	defnydd sy'n cael ei losgi i greu gwres neu ynni	fuel
yn sylweddol	yn fawr iawn	significantly

Gwaith gwahanol (3)

Darllenwch y testun hwn sy'n sôn am waith "gwahanol". Mae teitl y swydd ar goll, ond beth yw'r swydd yn eich barn chi?

Hafan

Swyddi Gwahanol

Cwestiynau

Lluniau

.....
(£20 yr awr)

Os ydych chi'n berson amyneddgar ac os oes gennych chi draed da a chefn cryf, dyma'r swydd i chi – yn enwedig os ydych chi'n hapus i aros ... aros ... ac aros am rywbeth. Gorau oll os ydych chi'n berson cyfeillgar, cymdeithasol, oherwydd gall siarad â'r person sy'n sefyll wrth eich ochr chi helpu i leihau'r diflastod (weithiau!).

Y gwaith

- **Sefyll** (weithiau eistedd a gorwedd hefyd – yn dibynnu ar ba mor hir mae rhaid i chi aros!)

ac

- **Aros ... aros ... aros** (am oriau ... neu ddyddiau o bosib!)

Y dyddiau hyn, gyda nifer cynyddol o gwmnïau'n cynnal digwyddiadau anhygoel i lansio offer technolegol newydd fel ffonau symudol smart neu gemau cyfrifiadur, neu siopau llyfrau'n cynnal digwyddiadau cyffrous i lansio llyfrau, neu hyd yn oed siopau'n cynnig sêls anhygoel (yn enwedig ar ddechrau'r flwyddyn), mae'r swydd hon yn dod yn fwyfwy poblogaidd gan fod angen y gwasanaeth yma ar bobl sy'n meddu ar ddigon o arian ond sydd heb lawer o amser. Mae'n bwysig hefyd adeg gwerthu tocynnau prin i gig neu adeg pencampwriaeth arbennig fel Wimbledon ym mis

Gorffennaf, gan fod rhai pobl gyfoethog yn fodlon talu i chi sefyll ac aros yn eu lle nhw.

Manteision

- Cyfarfod â phobl ddiddorol
- Does dim gorbenion – does dim angen offer na gwisg arbennig

Anfanteision

- Diflastod weithiau – yn enwedig os oes rhaid gweithio mewn tywydd oer a gwlyb a'ch bod chi'n sefyll rhwng dau berson sydd ddim eisiau siarad â chi

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
nifer cynyddol	mwy a mwy	increasing number
lansio	cyhoeddi / rhyddhau am y tro cyntaf	(to) launch
meddu ar	bod gan / gyda rhywbeth	(to) own
prin	does dim llawer ohonyn nhw	rare, scarce
gorbeinion	costau mewn busnes	overheads